**EITEM AR YR AGENDA: 14**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**17 Mawrth 2014**

**PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL**

**Adroddiad gan Colin Everett, Clerc yr Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

1 Rhoi gwybod i'r Aelodau fod Adroddiad Blynyddol y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2014/15 wedi cael ei gyhoeddi. Mae'r adroddiad yn nodi newidiadau i daliadau i Aelodau a fydd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2014.

## Cefndir

2 Ymestynnwyd cylch gwaith y Panel trwy Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. O dan y pwerau a ddarperir gan y Mesur mae'r Panel wedi llunio cyfres newydd o Reoliadau a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2012. Mae'r Rheoliadau'n gymwys i daliadau a wneir i aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdodau lleol, awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

## Gwybodaeth

3 Roedd aelodau'r Panel wedi ymweld am y tro cyntaf â'r 22 o awdurdodau cyfansoddol, y 3 awdurdod parc cenedlaethol a'r 3 awdurdod tân ac achub yn 2009, ac roeddent wedi ystyried bod 2013 yn adeg briodol i ailymweld â phob awdurdod 'gan fod pedair blynedd wedi mynd heibio ers sefydlu'r fframwaith gwreiddiol ac, o ystyried bod nifer o benderfyniadau dilynol wedi'u gwneud sy'n effeithio ar gydnabyddiaeth ariannol aelodau '. Cyfarfu'r Panel â chroestoriad o aelodau a swyddogion i drafod sut yr oedd penderfyniadau blaenorol y Panel yn gweithio yn ymarferol a pha faterion y dylai'r Panel eu hystyried ar gyfer ei Adroddiad Blynyddol nesaf ac ar gyfer y dyfodol.

4 Yn dilyn ymgynghoriad, daeth y Panel i’r casgliad canlynol am yr awdurdodau tân ac achub:

- " Mae gan gadeirydd rôl arweinyddiaeth a dylanwadu yn yr awdurdod, rôl gynrychioli sy’n debyg i ryw raddau i rôl pennaeth dinesig ac atebolrwydd sylweddol iawn, yn enwedig wrth i faterion dadleuol godi sy’n ymwneud â’r gwasanaeth brys a all arwain at lawer o sylw yn y cyfryngau lleol. Mae’r cadeirydd yn rhoi gwybodaeth i’r Gweinidog ac i ACau. Mae cadeirydd pob awdurdod tân ac achub yn ymgymryd â chyfran o’r ddyletswydd o gynrychioli'r 3 awdurdod tân ac achub gyda chyrff fel CLlLC. Mae cadeiryddion yn cyfrannu at brosiectau ar y cyd, gan gynnwys y Pwyllgor Materion Cenedlaethol, sydd wedi’i sefydlu ers ymweliad diwethaf y Panel yn 2011. Mae cadeiryddion yn cynnwys ymweliadau rheolaidd â gorsafoedd tân fel rhan o’u rôl ymgysylltu â’r cyhoedd.

- Mae’n ofynnol i ddirprwy gadeiryddion fod yr un mor gyfarwydd â materion cyfoes â’r cadeirydd ac yn aml bydd ganddynt amserlen gyfarfod yr un mor drwm. Mae cadeiryddion a dirprwy gadeiryddion yn cydweithio’n agos iawn ac yn mynychu’r un cyfarfodydd yn aml.

- Gall y cadeirydd a’r dirprwy gadeirydd eistedd ar Baneli Apelio sy’n gofyn am waith ychwanegol a gall aelodau eistedd ar wrandawiadau disgyblu.

- Yn ogystal â chyfarfodydd yr Awdurdod Tân, mae gan bob awdurdod tân ac achub bwyllgorau sy’n cynnwys, mewn gwahanol gyfuniadau; archwilio, rheoli perfformiad, craffu, adnoddau dynol, rheoli adnoddau yn ogystal â grwpiau gorchwyl a gorffen/gweithgorau.

- Yn adroddiad 2012 y Panel, dyrannwyd 4 Lwfans Cyfrifoldeb Arbennig i bob awdurdod tân ac achub a oedd yn daladwy i’r cadeirydd, dirprwy gadeirydd a hyd at ddau gadeirydd pwyllgor.

- Nid yw aelodau’n ymwybodol yn aml o’r lefel o ymrwymiad sydd ei hangen i gyflawni’r rôl cyn iddynt gael eu penodi i awdurdod tân ac achub. Yn ogystal â chyfarfodydd ffurfiol o’r Awdurdod a phwyllgorau, anogir aelodau i ymgymryd â rôl ymgysylltu â’r gymuned, gan gynnwys ymweld â gorsafoedd tân.

- Mae ethos hyfforddi cryf iawn mewn awdurdodau tân ac achub. Disgwylir i aelodau gymryd rhan mewn gweithgareddau hyfforddi a datblygu. Ychwanegir sesiynau hyfforddi’n aml at gyfarfodydd Awdurdod i sicrhau bod hyfforddiant yn hygyrch. Mae rhaglenni sefydlu ar gael, yn ogystal â hyfforddiant arbenigol ar gyfer apeliadau a gwrandawiadau disgyblu.

- Awgrymodd gwybodaeth a gasglwyd yn ystod ei ymgynghoriad yn 2013 bod yr ymrwymiad amser sy’n ofynnol yn agosach at 20 diwrnod y flwyddyn."

5 Mae’r Panel hefyd wedi amodi:

- Na ddylai aelodau dderbyn mwy nag un Uwch Gyflog gan awdurdod tân ac achub.
- Telir Uwch Gyflog awdurdod tân ac achub sy’n cynnwys Cyflog Sylfaenol awdurdod tân ac achub.
- Ni all aelod o awdurdod lleol sy’n derbyn Uwch Gyflog Band 1 neu Band 2 dderbyn cyflog gan unrhyw awdurdod tân ac achub y mae wedi’i benodi iddo.

**Goblygiadau Ariannol**

6 Yng ngoleuni Rheoliadau’r Panel, bydd angen i’r Awdurdod gynyddu ei gyllideb ar gyfer cyflogau’r aelodau £9,675 y flwyddyn.

| | **Cyflog newydd** | Cyflog presennol |
|---|---|---|
| Aelod | (25x) £ 1,700 | (25x) £ 1,350 |
| Cadeirydd | £10,400 | £10,085 |
| Dirprwy Gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio | (2x) £ 5,400 | (2x) £ 5,095 |
| | £63,700 | £54,025 |

**Argymhellion**

7 Gofynnir i Aelodau nodi y bydd y canlynol yn cael ei weithredu o 1 Ebrill 2014:

(i) bydd cyfradd Cyflog Sylfaenol yn £1,700 y flwyddyn am yr ymrwymiad amser o 20 diwrnod y flwyddyn yn daladwy i aelodau heblaw cadeirydd a dirprwy gadeirydd yr Awdurdod a chadeirydd y Pwyllgor Archwilio;
(ii) bydd cadeirydd yr Awdurdod yn cael Uwch Gyflog ATA yng Nghymru, sydd wedi ei gysoni â chyflog Band 3 (£10,400);
(iii) bydd dirprwy gadeirydd yr Awdurdod yn cael uwch gyflog sy’n gyson â chyflog Band 4 (£5,400);
(iv) bydd cadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn cael Uwch Gyflog o £5,400;
(v) cyfraddau lwfans teithio, cynhaliaeth a gofal yn aros yr un fath.